



## Sefydlu coed mewn rhedyn trwchus

Arloesedd

### PLANNU AR GYFER Y DYFODOL

Mae rhedynen yn blanhigyn ymosodol iawn a all ddominyddu ardaloedd mawr o dir yn gyflym os na chaiff ei reoli. Mae'r canopi trwchus yn ei gwneud hi'n anodd iawn i blanhigion presennol gystadlu ac mae hefyd yn atal unrhyw hadau rhag egino.

Mae tyfiant rhedyn trwchus yn cael dwy effaith negyddol fawr ar sefydlu coed. Un yw cysgodi a fydd yn lleihau cyfraddau twf glasbrennau, a'r ail yw bod y ffrondau sy'n cwmpo yn tueddu i wastatau a chladdu'r coed ifanc ar ddiwedd y tymor tyfu. Fodd bynnag, unwaith y bydd y coed wedi sefydlu, byddan nhw'n trechu'r rhedyn nad yw wedyn yn gallu goroesi.

Ar hyn o bryd y prif ddull a ddefnyddir i drin rhedyn cyn plannu yw trwy chwistrellu chwynladdwr Azulox, fel arfer mewn hofrennydd. Mae hyn yn broblematic gan fod y rhybuddion diogelwch ynghylch y cynnyrch yn gryf iawn ac mae'n debygol o gael ei dynnu oddi ar y farchnad yn y dyfodol agos. Mae sefyllfaoedd hefyd lle na chaniateir ei ddefnyddio, megis ar dir organig a/ neu ger cyrsiau dŵr neu gyflenwadau dŵr.

Felly dechreuodd ffermwyr a choedwigwyr yn y canolbarth ar brosiect EIP Cymru i astudio gwahanol ddulliau o reoli rhedyn oedd yn osgoi triniaethau chwynladdwr awyr drud a niweidiol.

### MANTEISION Y CYLLID

Yn 2019, sicrhodd y prosiect £36,700 o gyllid drwy Bartneriaeth Arloesedd Ewropeaidd (EIP Cymru). Derbyniodd EIP Cymru, a ddarperir gan Menter a Busnes, arian drwy Gymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020, a ariennir gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru.

Nod y prosiect oedd treialu gwahanol ddulliau o reoli rhedyn a allai dorri'r cylch o ddefnyddio arferion costus sy'n peri pryder i'r amgylchedd.

Fel rhan o'r prosiect, cymharwyd gwahanol dechnegau o baratoir tir, gan gynnwys defnyddio cloddiwr bach i dorri meinciau bas, cloddiwr gydag atodiad trin, tractor ymlusgo gyda thriniwr, ysgraffiniwr coedwigaeth ac yn olaf peiriant torri robotig gyda thriniwr. Defnyddiwyd technegau amgen o chwynnu ar ôl plannu, megis strimio a golchi â llaw.





Gyda'r treialon tir ar y gweill plannwyd pedair rhywogaeth o goed ifanc o dderw digoes, bedwen lwyd, chriafolen a sbrîws Sitca. Roedd mwyafrif y glasbrennau hyn yn 45-60 cm o hyd, sef safon y diwydiant. Plannwyd un llain gyda glasbrennau mwy o un metr yn uniongyrchol i redyn heb ei drin er mwyn sefydlu a fyddai costau ychwanegol planhigion a pholion mwy'n ddewis amgen mwy cost effeithiol na'r arbrofion yn ymwneud â rheolaeth fecanyddol.

Mae pob techneg yn cael ei monitro'n agos, trwy gyfradd goroesi a thwf y coed. Gwneir budd cost o bob techneg ac amcangyfrif o gostau tebygol pob techneg pan gânt eu defnyddio ar raddfa fwy.



## MAE'R DYFODOL YN DDISGLAIR...

Mae plannu ar gyfer y dyfodol a chael gwared ar chwynladdwyr gwenwynig yn hollbwysig i gefn gwlad Cymru a'i thrigolion. Mae'r prosiect hwn yn dangos y gall ymchwilio i wahanol dechnegau daear gynhyrchu gwahanol arferion i reoli rhedyn yn y dyfodol.

"Cafodd blwyddyn gyntaf yr ymchwil ei rhwystro gan lefelau eithafol o law ac yna amodau sych iawn ond serch hynny mae'r prosiect wedi cyflawni canlyniadau interim diddorol. Roedd y gyfradd marwolaethau rhwng rhywogaethau'n amrywio'n sylweddol gyda dim ond 5% o golledion ar gyfer glasbrennau bedw a chriafol a thua 10% ar gyfer sbrîws Sitca.

"Canfu'r prosiect hefyd mai ffenestr gyfyngedig iawn sydd ar gyfer amaethu mecanyddol mewn amodau ucheldirol ym mis Medi a mis Hydref. Rhaid gwneud y gwaith cyn i'r pridd gyrraedd gwlybanaeth y gaeaf ond mae angen i'r rhedyn fod wedi marw'n ôl ddigon i beryglon fel creigiau fod yn weladwy.

"Darganfuwyd bod amaethu'n dylanwadu ar daldra coed, gan ganiatáu i fedwen a chriafolen dyfu gryn dipyn yn dalach; ni welwyd yr effaith hon yn y dderwen a'r byrwydden fodd bynnag. Ar un o'r ddau safle, arweiniodd strimio a sathru hefyd at gynydd sylweddol yn nhaldra coed, er bod y canlyniadau'n anghyson.

"Bydd y canlyniadau terfynol yn berthnasol i ffermydd confensiynol ac organig, ac mae'r dull mwyaf effeithiol o sefydlu coed mewn rhedyn yn debygol o gael ei fabwysiadu'n eang, yn enwedig ar raddfa fferm."

Dr Peter Jackson, cynghorydd coetir a chadwraeth